Bannau Brycheiniog

# Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol

2024-2025

Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Bannau Brycheiniog

# Rhagair

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn canolbwyntio ar gynnydd a chyflawniadau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog mewn perthynas â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, hyd at ddiwedd mis Mawrth 2025. Rydym yn adrodd ar gynnydd o fewn ein sefydliad fel cyflogwr ac ar y gwaith rydyn ni'n ei wneud i ddiwallu anghenion grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

Gwnaethom ddarparu astudiaethau achos i dynnu sylw at ychydig o'r gwaith rydyn ni'n falch ohono. Mae ein timau Cymunedau Cynaliadwy ac Addysg yn arbennig o lwyddiannus wrth ddiwallu anghenion grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Rydym hefyd yn adrodd ar y grantiau a roddir drwy'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy.

Gobeithio y bydd y wybodaeth yn yr adroddiad hwn o ddiddordeb i chi. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Helen Roderick, Pennaeth Ymgysylltu a Rheoli Cyrchfannau.

**Catherine Mealing-Jones**
*Prif Swyddog Gweithredol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol*

**Mr Gareth Ratcliffe**
*Cadeirydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol*

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saseneg.**
***This document is also available in English.***

# Cynnwys

Rhagair 2

1. Cyflwyniad 4

2. Nodi, casglu a defnyddio gwybodaeth berthnasol 6

3. Ein Hamcanion 6

4. Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb 30

5. Hyfforddiant 30

6. Trefniadau caffaels 31

Atodiadau 32

# 1. Cyflwyniad


Roedd trydydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cwmpasu 2020-2024 ac mae'r adroddiad hwn yn dangos cynnydd yn erbyn y dangosyddion allweddol yn y cynllun hwnnw, hyd at ddiwedd mis Mawrth 2025.

Mae'r adroddiad blynyddol yn disgrifio'r gwaith a'r ymrwymiad helaeth dros y blynyddoedd ac yn cynnig crynodeb o'r cynlluniau a'r prosiectau niferus y mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol a'n partneriaid yn cymryd rhan ynddynt i ddangos ein hymrwymiad i weithio gyda grwpiau difreintiedig a grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

Mae'r diagram uchod yn dangos sut mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cyd-fynd â chynlluniau rheoli eraill, gan bennu camau gweithredu gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a'n partneriaid. Rydym yn adrodd fel cyflogwr, ac rydym hefyd yn rhannu astudiaethau achos sy'n tynnu sylw at ein hymrwymiad i weithio gyda grwpiau difreintiedig, a grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Trwy'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy, rydym yn sefydliad sy'n rhoi grantiau – mae ein hadroddiad yn dangos effaith gadarnhaol y prosiectau rydyn ni wedi'u hwyluso drwy grantiau i grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

## Dyfodol Y Bannau
## Cynllun Rheoli Ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Mae Y Bannau yn gynllun ar gyfer y Parc Cenedlaethol cyfan a chaiff ei ddefnyddio i ddiffinio gweledigaeth gyfunol ar gyfer ein holl weithrediadau yn y dyfodol. Mae'r diagram hwn yn dangos y ffordd y mae'r Cynllun Rheoli yn darparu'r cyd-destun strategol trosfwaol ar gyfer ystod o gynlluniau a pholisiau o fewny Parc Cenedlaethol, a gynhyrchwyd gan yr Awdurdod ac mewn partneriaeth ag eraill.




1. **Cynllun Gweithredu'r Amgylchedd Hanesyddol**
   Mae'n diffinio gwaith yr Awdurdod a'l Bartneriaid yn diogelu ein treftadaeth

2. **Cynllun Gwella Hawliau Tramwy**
   Mae'n diffinio sut rydyn ni'n gofalu am, ac yn datblygu'r llwybrau cyhoeddus yn y Parc

3. **Cynllun Datblygu Lleol**
   Mae'n diffinio cynllunio, dyma'r ddogfen ar gyfer dyfarnu pob cais cynllunio

4. **Cynllun Cydraddoldeb Strategol**
   Mae'n diffinio sut mae'r Awdurdod yn cofleidio amrywiaeth ac yn hyrwyddo cydraddoldeb i wneud y Parc Cenedlaethol yn hygyrch i drigolion ac i'r gymuned ehangach

5. **Strategaeth Cyfranogeth Gymunedol**
   Mae'n diffinio sut mae'r Awdurdod yn gweithio gyda chymunedau a rhanddeiliaid i wireddu amcanion sy'n cael eu rhannu

6. **Cynllun Gweithredu Adfer Natur**
   Cynllun partneriaeth i arwain gwaith adfer natur yn y Parc Cenedlaethol

7. **Cynllunio Lle**
   Partneriaeth i helpu cyflawni datblygiad economaidd cynaliadwy, cyfun, o ansawdd da yn y Parc Cenedlaethol


# 2. Nodi, casglu a defnyddio gwybodaeth berthnasol

## 2.1. Aelodau a chyflogeion

Mae'r Awdurdod wedi ceisio, cofnodi a dadansoddi gwybodaeth gan aelodau (Atodiad 1) a chyflogeion (Atodiad 2) a gwybodaeth fwy cyfyngedig am ymgeiswyr am swyddi (Atodiad 3) rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025. Am ragor o wybodaeth, gweler yr Atodiadau.

# 3. Ein Hamcanion

## AMCAN 1:
Hyrwyddo camau cadarnhaol i greu Parc Cenedlaethol hygyrch, cynhwysol a diogel




### Canllaw Mynediad Haws

Cafodd y "Canllaw Llefydd i Ymweld â Nhw gyda Mynediad Haws" diwygiedig a gwell ei adolygu, ei ailargraffu a'i ddosbarthu ganolfannau gwybodaeth o amgylch y Parc Cenedlaethol cyn tymor yr haf 2025.

Mae'r canllaw yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr am deithiau cerdded ac atyniadau sy'n addas i bawb, gan gynnwys y rhai sydd â symudedd cyfyngedig a theuluoedd â phramiau a phlant bach. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus, cysylltiadau â thacsis hygyrch a gweithredwyr trafnidiaeth gymunedol, a'r pwyntiau gwefru cerbydau trydan agosaf. Ariannwyd y gwaith dylunio ac argraffu gan gronfa Recharge in Nature BMW.

## Milltiroedd Heb Gamfeydd

Mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi bod yn gweithio ar y prosiect partneriaeth hwn dros nifer o flynyddoedd bellach, gan sicrhau cyllid cyflenwi lle bynnag y bo'n bosibl. Y nod cyffredinol yw darparu gwell mynediad i'r Parc Cenedlaethol, gan alluogi trigolion ac ymwelwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gwella eu hiechyd a'u lles corfforol a meddyliol.  Mae camfeydd yn cael eu newid am gatiau sy'n cau eu hunain a gwelliannau'n cael eu gwneud i arwynebau lle bo angen.

Mae'r tîm Wardeiniaid yn gweithio'n agos gyda chymunedau i greu rhwydwaith cynhwysol o lwybrau hygyrch ar gyfer ystod ehangach o lawer o bobl, gan gynnwys y rhai ag anableddau, anawsterau symudedd, pobl â theuluoedd ifanc a cherddwyr cŵn. Mae llwybrau'n cael eu hyrwyddo trwy ein gwefan, y cyfryngau cymdeithasol a theithiau tywys.



## Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd

Ymwelodd grŵp o tua 40 o oedolion a phlant o Gymdeithas Tai Cymuned Caerdydd (CCHA) â Chanolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol. Mae Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd yn gweithio gyda theuluoedd ledled Caerdydd ac mewn llawer o ardaloedd sy'n wynebu amddifadedd cymdeithasol. Nid oedd y rhan fwyaf o'r grŵp erioed wedi bod i'r Parc Cenedlaethol o'r blaen a bu eu hymweliad yn bosibl diolch i fws wedi'i ariannu. Roedd gweithgareddau'r diwrnod yn cynnwys taith gerdded ar Fynydd Illtud, ymweld â'r ardd bywyd gwyllt, hel pryfed yn y coetir, dysgu am rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol, ymlacio a chael hwyl.



### Grŵp Green Soul

Ymwelodd teuluoedd o'r grŵp Green Soul o Gaerdydd â Chraig-y-nos ar gyfer taith gerdded o amgylch y Parc Gwledig ac i ddysgu mwy am y Gylfinir. Ein nod yw annog ystod fwy amrywiol o ymwelwyr â'r Parc Cenedlaethol a helpu i fynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau i fynediad.



## Reidiwr Pob Tirwedd Newydd yn y Ganolfan Ymwelwyr

Ym mis Gorffennaf 2023 lansiodd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog Reidiwr Pob Tirwedd newydd i wella hygyrchedd i'r dirwedd drawiadol o amgylch Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol yn Libanus. Mae'r cerbyd yn cefnogi ein hymrwymiad i wneud tirweddau a gweithgareddau awyr agored y Parc yn hygyrch i unigolion o bob gallu. Daeth y Reidiwr fel rhan o gyfres o newidiadau, sy'n cynnwys llwybrau mwy hygyrch a chyfleusterau toiled anabledd newydd.



## AMCAN 2:

### Ffurfio grŵp cynrychioliadol o Aelodau'r Awdurdod Parc Cenedlaethol a hyrwyddo ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ymhlith Aelodau'r Awdurdod Parc Cenedlaethol

Yn ystod 2020-2024 gwnaed sawl penodiad newydd gan Lywodraeth Cymru i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol. Ein nod oedd hyrwyddo aelodaeth amrywiol a gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn ein datganiad i'r wasg:

**Ewch i wefan Brecon & Radnor Express: New Bannau Brycheiniog National Park authority members will help 'represent all voices'**

Mae cyfanswm o chwe aelod o'r Awdurdod yn cael eu penodi gan Lywodraeth Cymru gyda'r gweddill yn cael eu penodi gan Awdurdodau Lleol unigol. Derbyniodd yr aelodau hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2024. Dyma hefyd y thema ar gyfer cynhadledd Parciau Cenedlaethol y DU yn hydref 2024, a fynychwyd gan yr Awdurdod.

## AMCAN 3:

### Hyrwyddo ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ymhlith staff i gefnogi gweithlu amrywiol, ymroddedig

## AMCAN 4:

### Creu gweithlu amrywiol a chynhwysol

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i fod yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd. Fel rhan o raglen sefydlu gweithwyr newydd, maent yn cwblhau'r modiwlau hyfforddi ar-lein canlynol (ymhlith eraill):

- **Cyfathrebu â chwsmeriaid byddar**
- **Urddas a Pharch yn y Gwaith**
- **Cynhwysiant Anabledd yn Ymarferol**
- **Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl**

# AMCAN 5:
## Hyrwyddo cydraddoldeb cyflog drwy ddefnyddio data i lywio polisi rheoli

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i Gydraddoldeb Cyflog ac mae'n cynhyrchu datganiad Polisi Cyflog blynyddol.  Gweler Atodiad 2 am ragor o wybodaeth..

# AMCAN 6:
## Hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli

Mae gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol 209 o wirfoddolwyr gweithredol (yn gywir fel ar 19 Awst 2025).

### Wardeiniaid Ieuenctid

Mae ein tîm Wardeiniaid Ieuenctid yn cynnwys pobl ifanc 14-17 oed sydd ag angerdd dros gadwraeth a chymuned. Ymhlith y gweithgareddau maen nhw wedi cymryd rhan ynddynt dros y flwyddyn ddiwethaf mae clirio ardal y pwll dŵr yn y Ganolfan Ymwelwyr, cadwraeth bywyd gwyllt, gwella mynediad, gwaith coed, a chyfarfod â thimau gwirfoddolwyr ifanc mewn Parciau Cenedlaethol eraill yng Nghymru.



## Gwirfoddolwyr mawndiroedd

Ers 2022, mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi sicrhau cytundeb, cyllid a chefnogaeth i adfer mawndiroedd ucheldirol a gwella llwybrau. Mae'r prosiect yn cael ei gyflwyno mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru, porwyr a thirfeddianwyr. I gydnabod yr effeithiau buddiol ar ddŵr yfed yn nalgylchoedd cronfeydd dŵr y Bannau Canolog, dyrannodd Dŵr Cymru £185,000 rhwng 2022 a 2025 i'r prosiect hwn. Y nod yw creu ucheldiroedd mwy gwydn a helpu i frwydro yn erbyn newid hinsawdd..



Mae'r Prosiect Mawndiroedd wedi'i gyflawni gan grŵp craidd o wirfoddolwyr ymroddedig sy'n aml yn gorfod cario offer am filltiroedd i gyrraedd y safleoedd maen nhw'n eu trwsio. Ym mis Medi 2023, ymunodd grŵp o saith gwirfoddolwr o Oasis Cardiff (elusen sy'n cefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches) â'n tîm mawndiroedd ar dasg anarferol – gwneud "selsig" gwlân. Defnyddiwyd y rhain fel argaeau yn ystod gaeaf 2024 i arafu llif dŵr trwy'r mawn. Gwnaeth y gwirfoddolwyr gyfraniad sylweddol trwy ein helpu i greu argaeau gan ddefnyddio deunyddiau lleol. Cafodd y grŵp fewnwelediad i gyd-destun ehangach y Parc Cenedlaethol a'n gwaith adfer mawndiroedd.

## Garn Goch

Tua 2,500 o flynyddoedd yn ôl, roedd Garn Goch yn anheddiad Oes Haearn prysur, yn gartref i gymuned ffyniannus lle roedd pobl yn byw, gweithio, ffermio a masnachu. Ymunodd ein gwirfoddolwyr â'n wardeniaid a'n harbenigwyr treftadaeth dros sawl sesiwn yn nwy ran Garn Goch i gael gwared ar lystyfiant o'r safle, gan helpu i ddiogelu'r archaeoleg sylfaenol.

## Ad-dalu Cymunedol

Yn ystod 2024 buom yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i ddod â phobl ar brawf i'r parc i gwblhau eu horiau gwaith di-dâl a chefnogi'r wardeniaid. Dechreuodd y partïon gwaith ym Mhwll y Ceidwad ar y Blorens ac ar Garn Goch. Roeddem yn gobeithio ysbrydoli'r cyfranogwyr i barhau i weithio yn y sector hwn a cheisio hyfforddiant pellach a chyflogaeth bosibl.

# AMCAN 7:
## Hyrwyddo mynediad corfforol a digidol i'r Parc Cenedlaethol a'n gwasanaethau

### Mynediad i Bawb

Ariannodd y prosiect **Camau Bach** drafnidiaeth, arweiniad a gweithgareddau ar gyfer llawer o grwpiau. Dan arweiniad y timau Cymunedau ac Addysg, roedd y grwpiau a gymerodd ran yn cynnwys ffoaduriaid, grŵp menywod o Abertawe a Gelli-deg, a chynrychiolaeth o'r Ganolfan Tai Chi Norwyaidd.



Gall bod yn yr awyr agored ym myd natur wella iechyd a lles ac mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cynnig cyfleoedd eang mewn perthynas â hyn. Rydyn ni'n ymwybodol bod rhai pobl sydd eisiau ymweld â'r Parc yn wynebu rhwystrau o ran cael mynediad at drafnidiaeth a diffyg hyder, gwybodaeth a chyllid. Er mwyn helpu grwpiau i gynyddu eu gwybodaeth a'u hyder i ymweld â'r Parc, cynhaliwyd sesiynau Hyfforddiant Arweinwyr Awyr Agored ar gyfer arweinwyr grwpiau cymunedol gan gynnwys arweinwyr o MIND Aberhonddu, Coed Lleol, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a grŵp menywod Mwslimaidd.

Lansiwyd y canllaw dwyieithog **Teithiau Natur Aberhonddu** ym mis Mawrth 2025 yn Neuadd y Dref Aberhonddu gyda staff o'r Bartneriaeth Natur Leol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, sefydliadau amgylcheddol, Cyngor Tref Aberhonddu a grwpiau cymunedol lleol. Ei nod yw cysylltu mannau gwyrdd Aberhonddu a chysylltu trigolion ac ymwelwyr â'r cyfoeth o natur yn y dref a'r cyffiniau. Yn dilyn cyflwyniad i'r Bartneriaeth Natur Leol, arweiniodd staff y grŵp ar un o'r teithiau natur o amgylch Caeau'r Ynys a'r gamlas.

## Ymgysylltu â Grwpiau Heb Gynrychiolaeth Ddigonol

Rhwng Ebrill a Hydref 2024, ymgysylltodd y Tîm Cymunedau a'r Tîm Addysg â 12 grŵp sydd wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys dros 460 o bobl. Gan nad oedd llawer erioed wedi ymweld â'r Parc Cenedlaethol o'r blaen, roedd y digwyddiad yn gyfle gwerthfawr i feithrin cysylltiadau newydd, arddangos ein gwaith a'r Parc, a mwynhau profiadau cymdeithasol sy'n cynnig manteision lles sylweddol. Talodd Awdurdod y Parc 75% o gostau trafnidiaeth, gan wneud yr ymweliadau yn fforddiadwy. Ymwelodd y grwpiau canlynol:

Daeth y **Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST)** â grŵp o ffoaduriaid o Abertawe i Barc Gwledig Craig-y-nos i fwynhau taith gerdded, ac i ddysgu mwy am Geoparc UNESCO Fforest Fawr. Cawsom adborth ardderchog:

*"Natur, sŵn adar yn canu a sŵn afonydd y mynydd – roedd hwn yn ddiwrnod anhygoel."*

*"Dysgais gymaint ar y diwrnod - darllenais lawer mwy ar ôl yr ymweliad hefyd oherwydd taniwyd fy niddordeb."*



Mae **Age Connect** yn helpu i liniaru ynysu cymdeithasol a daethant â 43 o bobl hŷn o Fargam, Castell-nedd a Phontardawe i Barc Gwledig Craig-y-nos. Nid oedd llawer wedi bod yno ers eu plentyndod ac roedd ganddynt atgofion o'r hen ysbyty TB yno. .



Mae'r **Innovate Trust** o ardal Caerdydd yn gweithio gyda phobl sydd ag anawsterau dysgu ar brosiectau cadwraeth. Fe ddaethon nhw i'r Ganolfan Ymwelwyr am dro ac i gynnal arolygon bywyd gwyllt, a gynyddodd eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o fywyd gwyllt yn y Parc Cenedlaethol.



# AMCAN 8:

## Cefnogi mynediad cyfartal i wasanaethau, cyfleusterau a thai o fewn cymunedau lleol

### Cronfa Datblygu Cynaliadwy

eang o brosiectau a gweithgareddau cymunedol dros y 25 mlynedd diwethaf, gan ganolbwyntio ar y rhai sy'n:

- **Darparu manteision economaidd, amgylcheddol, cymunedol a diwylliannol**
- **Helpu i leihau effeithiau newid hinsawdd a hyrwyddo adferiad natur a bioamrywiaeth**
- **Ennyn cefnogaeth a chyfranogiad cymunedau lleol**

Often, relatively small grants can support communities and organisations to Yn aml, gall grantiau cymharol fach gefnogi cymunedau a sefydliadau i ymgymryd â gwaith pellgyrhaeddol ac effeithiol. Dyma rai o'r prosiectau Cronfa Datblygu Cynaliadwy o 2020-2025 a gefnogodd wydnwch cymunedol, iechyd a lles, a chynhwysiant:

### Strôc mewn Oedolion Ifanc – Prifysgol Fetropolitan Manceinion

### Grant CDC o £46,546 dros 4 blynedd

Mae'r grant hwn yn cefnogi prosiect ymchwil PhD gweithredol, lle bu'r fyfyrwraig Rebecca Clarke yn ymchwilio i fath newydd o adsefydlu yn dilyn strôc, gan ddefnyddio'r effaith gadarnhaol y mae amgylcheddau awyr agored naturiol yn ei chael ar iechyd a lles. Strôc yw'r prif achos o anabledd difrifol i oedolion yn y DU. Yn ôl y Gymdeithas Strôc mae tua 150,000 o bobl yn cael strôc bob blwyddyn ac mae un o bob pedwar o'r rhain dan 65 oed. Mae'r rhan fwyaf o oedolion ifanc sydd wedi cael strôc yn methu â chwblhau gweithgareddau bob dydd, dychwelyd i'r gwaith, cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol neu weithgareddau awyr agored, gan arwain at fwy o amser dan do, diffyg annibyniaeth, ynysu cymdeithasol, ac iselder.

### Bale Gŵyl Aberhonddu

### Grantiau CDC mewn sawl blwyddyn, £5,000 yn 2023-2024 ar gyfer Cerddorfa Bale'r Ŵyl

Nutcracker yn Theatr Brycheiniog. Mae clyweliadau ar gyfer y rolau actio a gwahoddiadau i helpu y tu ôl i'r llenni yn agored i bawb. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf roedd y perfformwyr yn cynnwys plant ac oedolion ag amrywiaeth o anableddau, gan gynnwys dawnsiwr proffesiynol ag awtistiaeth, plentyn rhannol ddall, plentyn byddar, a dawnsiwr proffesiynol ag anabledd corfforol.

Mae un perfformiad bob amser yn cael ei ddynodi'n "hamddenol" - mae'r goleuadau'n cael eu cadw ymlaen ar lefel isel, nid oes disgwyl i'r gynulleidfa fod yn dawel, ac mae stiwardiaid theatr ar gael i gynorthwyo yn ôl yr angen. Mae'r grŵp wrth ei fodd gyda'r ymateb cadarnhaol. Mae'r perfformiadau hyn wedi croesawu llawer o deuluoedd â phlant ifanc a allai ei chael hi'n anodd eistedd yn llonydd, yn ogystal ag aelodau o'r gynulleidfa sydd ag anghenion ychwanegol a'u gofalwyr, gan greu profiad mwy cynhwysol a hygyrch i bawb.



### Prosiect Gwirfoddolwyr Cadwraeth Bele'r Coed – Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

### Grant CDC o £15,370 dros 4 blynedd

Cyflawnwyd y prosiect gan bartneriaid o'r Vincent Wildlife Trust a Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent (GDAS) yn gweithio gyda'r Awdurdod Parc Cenedlaethol. Roedd y prosiect yn cynnwys gosod blychau nythu a thrapiau camera, a chyfrannodd Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent gyfleusterau gweithdy, staff, ac amser gwirfoddolwyr. Aeth cyfranogwyr o'r prosiect iechyd meddwl dynion newydd drwy ddelweddau'r trap camera, gan helpu i adnabod y gwahanol anifeiliaid a recordiwyd ar ffilm.

Yn ogystal â gweithgarwch grant Cronfa Datblygu Cynaliadwy, cyflwynodd staff y Parc Cenedlaethol gwrs Hyfforddiant Arweinwyr Awyr Agored ar gyfer Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent ym mis Chwefror 2024. Mynychwyd y cwrs gan naw aelod o staff cymorth a gwirfoddolwyr a oedd yn awyddus i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u hyder wrth arwain gweithgareddau awyr agored sy'n hyrwyddo lles. Er mwyn gwneud yr hyfforddiant yn fwy hygyrch, gwnaethom ymweld â'u swyddfa, lle gwnaethom drafod cynllunio taith, iechyd a diogelwch, darllen map, a rhannu argymhellion ar leoedd gwych i ymweld â nhw yn y Parc Cenedlaethol. Yn y prynhawn, gwnaethom arwain sesiynau ymarferol ar ddefnyddio cwmpawd, geogelcio, a gweithgareddau awyr agored eraill ym Mharc Pont-y-pŵl. Dywedodd y cyfranogwyr fod yr hyfforddiant yn werthfawr iawn ac roeddent yn frwdfrydig i ymweld â'r Parc Cenedlaethol yn amlach, yn enwedig o ystyried ei agosrwydd. Gwnaed cysylltiadau cryf ar gyfer cydweithio yn y dyfodol rhwng Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent a'r Awdurdod Parc Cenedlaethol.

### Muddy Care

### Grant CDC o £9,180 dros 2 flynedd

Mae Muddy Care o Dalgarth yn darparu addysg awyr agored, ecotherapi a chymorth adsefydlu hirdymor i bobl â chyflyrau meddygol cronig. Mae'r rhaglenni'n canolbwyntio ar y person, gan fynd i'r afael ag anghenion emosiynol a seicolegol yn ogystal â chorfforol, gan gefnogi datblygiad personol. Cefnogodd y grant brosiect peilot i asesu a dangos effeithiolrwydd y dull hwn, gyda thua 12 o gyfranogwyr yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau a gweithdai hamdden yn y Parc Cenedlaethol a thu hwnt.

Dangosodd y gwerthusiad fod cyfranogwyr wedi lleihau eu meddyginiaethau gan fwy na 50% erbyn diwedd y rhaglen a'u bod nhw'n cael llai o ail byliau. Roedden nhw hefyd wedi gwella eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth o'r Parc Cenedlaethol, gan ymweld ag ardaloedd llai cyfarwydd. Roedd yr adborth gan gyfranogwyr yn gadarnhaol iawn:

*"Pan ddechreuais i gyda Muddy Care roeddwn i jyst yn bodoli. Yr unig bryd roeddwn i'n gadael y tŷ oedd ar gyfer apwyntiadau ysbyty, ac roeddwn i'n cael llawer ohonyn nhw. Roeddwn i'n dal i ddod i delerau â'm diagnosis; prin iawn oedd y gefnogaeth oedd gen i, ac nid oedd gen i unrhyw fywyd cymdeithasol. Mae Muddy Care wedi newid fy mywyd. Rydw i wedi gwneud pethau anhygoel nad oeddwn i erioed wedi meddwl fyddai'n bosibl."*

## Dod i adnabod eich cymdogion – Menter Cadwraeth Natur Cymru (INCC)

## Grant CDC o £8,252 dros 2 flynedd

Nod Menter Cadwraeth Natur Cymru yw gwarchod, diogelu a gwella amgylchedd naturiol Cymru, gan addysgu pobl ar hyd y ffordd. Roedd y prosiect hwn yn canolbwyntio ar ymgysylltu ymhellach â'r gymuned leol. Cynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau gyda'r nod o hyrwyddo dealltwriaeth o'r rhywogaethau yn yr ardal, eu cofnodi, a gofalu amdanynt. Cynhaliwyd teithiau gyda grwpiau teuluol mewn partneriaeth â llyfrgell Gwauncaegurwen. Mae 57 o bobl wedi cofrestru ar gyfer cylchlythyr y prosiect, gyda phob rhifyn yn ennyn ymateb da a phobl leol yn rhoi eu straeon a'u lluniau eu hunain. Roedd yr adborth a dderbyniwyd yn ardderchog:

*"Yn 2016, cefais ddiagnosis o ganser ond diolch byth gwnaeth llawdriniaeth ddatrys y broblem. Fel yr oeddwn i'n gwella, dywedwyd wrth fy ngŵr fod ganddo ef ganser hefyd ac, yn anffodus, bu farw o fewn tri mis i'r diagnosis. Torrais fy nghalon, ac nid oedd unrhyw ystyr i fywyd. Roedd popeth yn ormod o ymdrech a hyd yn oed fy ngardd annwyl yn cael ei hesgeuluso gan nad oedd gennyf unrhyw ddiddordeb ynddi hi nac unrhyw beth arall.*

*Newidiodd hyn i gyd pan gwrddes i â Rob a gwirfoddoli i'r Menter Cadwraeth Natur Cymru. Mae'n bosibl fod problemau iechyd, dod yn wraig weddw yn sydyn, ac ynysu yn ystod y cyfnod clo i gyd wedi cael effaith niweidiol arnaf, ond dydw i byth yn teimlo'n unig nac yn ddiflas nawr. I'r gwrthwyneb, mae bywyd yn llawn diddordeb ac rwy'n edrych 'mlaen bob bore at ddysgu am y pethau sy'n rhannu ein byd ni gyda ni."*

## Green Minds – Mind Aberhonddu

## Grant CDC o £5,000

Mae Mind Aberhonddu a'r Cylch yn cefnogi pobl yng nghymunedau gwledig De Powys sy'n cael eu heffeithio gan salwch meddwl a gofid. Lansiwyd y prosiect Green Minds yn gynnar yn 2020 gyda sesiynau ecotherapi llwyddiannus ar gyfer 12 o gyfranogwyr a wnaeth focsys adar ac ymgymryd â gweithgareddau plannu a thyfu. Cefnogodd y grant ardd wenyn a bywyd gwyllt yn Eglwys Gadeiriol Aberhonddu a gardd bywyd gwyllt yn ysbyty Bronllys. Mae pobl yn gwerthfawrogi cael y cyfle i gymryd rhan:

*"Cyn y cyfnod clo roeddwn i'n gweithio fel gwirfoddolwr i grŵp Clefyd Alzheimer. Pan dorrwyd hwnnw, collais ran fawr o'm bywyd cymdeithasol hefyd, felly mae bod yn rhan o grŵp eto yn help mawr."*

*"Dydw i ddim yn nabod llawer o bobl yn yr ardal ac mae'r cyfnod clo wedi gwneud i mi deimlo'n unig iawn felly mae gwybod bod y grŵp hwn yn digwydd yn dda iawn."*

*"Rwy'n mwynhau cymryd rhan yn y sesiynau Green Minds. Mae'n helpu gyda'm lefelau gorbryder ac yn fy nghael i allan o'r tŷ hefyd ac yn fy nghadw i'n brysur."*

*"Mae gofalu am y pridd a defnyddio fy nwylo yn gwneud i mi deimlo'n well."*

## Crefftau Aberhonddu a'r Cylch - The Big Skill

## Grant CDC o £9,598

Mae'r Big Skill yn gweithio gyda chymunedau i rannu a datblygu sgiliau creadigol ac ymarferol trwy weithdai a digwyddiadau crefft traddodiadol a chyfoes, a ddarperir am ddim neu ar gost isel i gyfranogwyr. Mae hygyrchedd yn egwyddor sylfaenol i'r grŵp, yn ogystal â ffocws ar gynnwys pobl ag anableddau, pobl â phroblemau iechyd meddwl, a phobl sy'n unig ac ynysig. Mae gweithgareddau'r grŵp yn hybu llesiant ac yn hyrwyddo rhyngweithio cadarnhaol yn ogystal â dealltwriaeth amgylcheddol trwy sgiliau ailgylchu a chrefftau traddodiadol. Cefnogodd y grant Cronfa Datblygu Cynaliadwy raglen 30 wythnos o weithdai mewn amrywiaeth o ganolfannau cymunedol ac orielau, gan arwain at ddathliad Wythnos Grefftau a digwyddiad stiwdios agored ym mis Mehefin 2022.

### Criw Craggy – Parc Gwledig Craig-y-nos

### Grant CDC o £4,760

Wedi'i sefydlu gan wirfoddolwyr Parc Gwledig Craig-y-nos dros 10 mlynedd yn ôl, creodd y Criw Ardd Gymunedol lwyddiannus ar y safle. Maent yn cynnal partïon gwaith wythnosol i ddatblygu a chynnal y gofod fel canolbwynt ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned leol, gan gynnig gweithgareddau garddwriaethol yn ogystal â gwneud offer a chreu blychau ystlumod ac adar. Maent hefyd yn cynnal diwrnodau ffoaduriaid a diwrnodau gweithgareddau rheolaidd i deuluoedd lleol, yn gweithio gyda phobl sy'n cael eu cefnogi gan Mind a grwpiau dementia, ac wedi cyflwyno gŵyl adrodd straeon a cherddoriaeth yn y Parc Gwledig.

### Clwb Cinio Talgarth

### Grant CDC o £1,362

Roedd clwb cinio llwyddiannus a phoblogaidd yn cael ei gynnal yn Neuadd y Dref Talgarth am 38 mlynedd, ond ni ailagorodd ar ôl y pandemig COVID-19. Gadawodd hyn fwlch amlwg yn y ddarpariaeth leol, gyda llawer o unigolion hŷn ac ynysig yn colli'r cyfle i gysylltu'n rheolaidd ag eraill mewn amgylchedd cynnes a chroesawgar, a gyfrannodd at golli hyder wrth adael eu cartrefi.



Ym mis Chwefror 2023, daeth gwirfoddolwyr at ei gilydd i ail-lansio Clwb Cinio Dydd Mawrth yn Neuadd y Dref, sy'n gwbl hygyrch, a diolch i'r grant Cronfa Datblygu Cynaliadwy bu'n bosibl prynu offer cegin allweddol.  Ers hynny, mae'r mynychwyr wedi bod yn cyfarfod yn fisol i rannu bwyd, cymdeithasu, dysgu am weithgareddau a gwasanaethau lleol, gwrando ar siaradwyr gwadd a theimlo'n rhan o'u cymuned eto. Mae mentrau fel hyn yn cael effaith enfawr ar les, gan roi ymdeimlad o bwrpas a chysylltiad i bawb sy'n cymryd rhan.

## Gweithdai a Pharêd 2023 – Frazz Aberhonddu

## Grant CDC o £4,695

Mae Frazz Aberhonddu (Fringe + Jazz = Frazz) yn ymgysylltu â phobl ifanc a chymuned ehangach Aberhonddu a'r ardal gyfagos yn ystod y cyfnod cyn Gŵyl Jazz Aberhonddu a'r Ŵyl Ymylol gysylltiedig. Yn 2023, cynhaliwyd rhaglen o weithdai celf a chrefft cyfranogol am ddim i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau ledled y dref, gan ganolbwyntio ar wneud gwisgoedd, propiau ac offerynnau yn bennaf o ddeunydd sgrap.



Daeth hyn i gyd i ben gyda pharêd carnifal trwy Aberhonddu ar ddydd Sadwrn y Penwythnos Jazz, gyda baneri a fflôt heb fodur ar y thema "40 mlynedd o Jazz Aberhonddu". Nid yw llawer o bobl o reidrwydd yn gallu fforddio digwyddiadau â thocyn neu efallai nad ydynt eisiau mynd i dafarndai neu glybiau – felly bob blwyddyn mae'r parêd Frazz yn rhoi cyfleoedd creadigol i bawb gymryd rhan.

## Dosbarth Awyr Agored, Ardal Wyllt - Ysgol y Bannau

## Grant CDC o £8,500

Mae Ysgol Gymraeg y Bannau'n rheoli Ardal Wyllt gyfagos; gofod chwarae gwyllt a dysgu awyr agored yn seiliedig ar y cwricwlwm. Mae'n 3 erw o faint ac yn cael ei phrydlesu fel rhan o dir yr ysgol. Mae'r gofod yn galluogi plant i ddysgu a gwneud cysylltiadau cryf â'r amgylchedd naturiol. Gwnaeth y grant CDC gefnogi Cyfeillion yr Ysgol i osod ystafell ddosbarth awyr agored dymhorol yn yr Ardal Wyllt, fel y gellir defnyddio'r ardal ym mhob tywydd.

## Maes Chwarae'r Tŷ Crwn - Canolfan Ieuenctid a Chymunedol Llangors

## Grant CDC o £700

Adeiladwyd y tŷ crwn replica ar dir ger Canolfan Gymunedol Llangors yn 2001, gyda'r dyluniad wedi'i ysbrydoli gan y gaer Oes Haearn leol ar Allt yr Esgair gerllaw. Roedd plant o'r ysgol gynradd leol a'r clwb ieuenctid lleol yn rhan o'r gwaith o'i adeiladu. Bellach wedi'i ymgorffori mewn parc chwarae newydd i blant, gyda mynedfa a llwybrau gwastad sy'n hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a phobl â symudedd cyfyngedig, mae'r tŷ crwn wedi bod yn nodwedd boblogaidd iawn yn y pentref ers dros 20 mlynedd. Mae'n cael ei ddefnyddio gan wahanol grwpiau at ddibenion addysgol, gan gynnwys yr ysgol gynradd a'r clwb sgowtiaid lleol.  Gwnaeth y grant helpu i ddisodli rhywfaint o'r hen bren a chefnogi triniaeth ar gyfer pryfed, a fydd yn sicrhau ei fod yn cael ei ddiogelu at ddefnydd cymunedol am flynyddoedd i ddod.

## Cypyrddau Offer – Cymdeithas Rhandiroedd Watton

## Grant CDC o £1,500

Mae'r safle rhandiroedd yng nghanol Aberhonddu gyda thua 140 o ddeiliaid lleiniau. Mae ei aelodau yn tyfu bwyd a blodau ac yn rheoli'r safle i sicrhau ei fod mor ecogyfeillgar â phosibl. Maent yn cefnogi'r gymuned leol ehangach a'r Banc Bwyd drwy ddosbarthu cynnyrch dros ben yn wythnosol yn ystod y prif dymor (122kg yn 2024), ac yn gweithio gyda Mind Aberhonddu, grwpiau ffoaduriaid a grwpiau pobl ifanc i gefnogi lles a chynhwysiant. Mae chwe gwely uchel a chwpwrdd offer wedi'u gosod ar gyfer deiliaid lleiniau llai symudol, mae mynedfa'r safle yn wastad ac yn hygyrch i geir a defnyddwyr cadair olwyn, ac mae'r rhan fwyaf o lwybrau yn hygyrch i bobl â symudedd cyfyngedig a phramiau.



## Fideo Hyrwyddo - Côr Meibion Aberhonddu a'r Cylch

## Grant CDC o £880

Wedi'i sefydlu ym 1937, mae gan y côr meibion traddodiadol Cymreig hwn tua 40 o aelodau sy'n byw yn Aberhonddu a'r cyffiniau. Mae'r grŵp yn canu yn Gymraeg a Saesneg ac yn gweithio i hyrwyddo astudiaeth ac ymarfer o gerddoriaeth gorawl. Mae'n perfformio'n rheolaidd mewn digwyddiadau lleol, cyngherddau a phriodasau ac wedi ymddangos mewn lleoliadau mawreddog ledled y byd. Yn ystod y cyfnod clo, comisiynodd y Côr gân o'r enw "Haul ar y Llanne" am y pandemig Covid-19 a arweiniodd at ddistawrwydd yn y plwyfi lleol – mae'r geiriau'n disgrifio'r haul yn disgleirio ar holl blwyfi Bannau Brycheiniog, cyn i'r clychau alw ar ei gilydd wrth i gymunedau ddechrau dod at ei gilydd eto.

Cefnogodd y grant fideo o'r Côr yn canu'r gân ar Fynydd Illtud. Bydd yn cyd-fynd â'u halbwm newydd a gobeithio y bydd yn ymddangos ar wefan y Parc Cenedlaethol a phlatfformau cyfryngau cymdeithasol, gan hyrwyddo'r Côr a'r diwylliant a'r traddodiad y mae'n rhan ohono, y Gymraeg a thirwedd odidog Bannau Brycheiniog.



## Prosiectau Cymunedol Pellach y Bartneriaeth

Ym mis Chwefror 2024 ymunodd staff y Parc Cenedlaethol â gwirfoddolwyr o Coed Cadw, Eglwys Dewi Sant, Llanfaes, Cyngor Tref Aberhonddu a Phartneriaeth Natur Leol Powys i blannu coed ffrwythau brodorol ym mharc Llanfaes a Phromenâd Aberhonddu i ymestyn y berllan gymunedol yno. Mae'r coed yn cynnig paill i beillwyr, ffynhonnell fwyd i fywyd gwyllt lleol, a chysgod i drigolion yn y misoedd heulog cynnes. Bydd trigolion lleol yn parhau i ofalu am yr eginblanhigion hyn wrth iddynt dyfu, gan elwa ohonynt yn y blynyddoedd i ddod. Ariannwyd y prosiect gan Brosiect "Porth Aberhonddu" Lleoedd Lleol ar gyfer Natur.

## Ffiniau Traddodiadol Cymru

Gweithiodd Swyddog Cadwraeth Coetir yr Awdurdod gyda ffermwyr i helpu i adfer ac adeiladu ffiniau traddodiadol ar draws y Parc. Mae ffiniau traddodiadol (perthi) yn chwarae rhan annatod fel coridorau biolegol sy'n gwella cysylltedd yn y dirwedd. Maent yn ffynhonnell o fwyd i fywyd gwyllt, yn storio carbon, yn gwella ansawdd yr aer, ac yn helpu i liniaru effeithiau glaw trwm, arafu llif dŵr a gwella ymdreiddiad. Mae'r cynllun hwn wedi'i ddylunio er budd rheolwyr tir a'r amgylchedd fel ei gilydd, yn ogystal â'r economi wledig ehangach drwy greu gwaith i gontractwyr lleol. Yn ystod y prosiect, plannwyd ychydig dros 80,000 o goed ar 50 o ffermydd gwahanol yn y Parc, gan greu 10km o berthi newydd gan gysylltu cynefinoedd, cloi hyd at 7 tunnell o garbon y flwyddyn, darparu lloches i dda byw a chreu rhwystrau stoc.

Gwnaeth ein wardeniaid a thîm mawr o wirfoddolwyr gynorthwyo un o'n partneriaid coed agos, Stump Up For Trees (aka Stump). Ffurfiwyd partneriaeth rhwng Stump ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf gyda Stump yn darparu'r coed ar gyfer y cynllun grant a ariannwyd gan y Parc Cenedlaethol i blannu ffiniau traddodiadol (perthi) yn ôl yn ein tirwedd.

*"Mae 'na ddiwrnodau pan rydyn ni'n plannu coed yn y gwynt a'r glaw a hyd yn oed ynghanol lluwchfeydd eira, ond nid oedd heddiw yn un ohonyn nhw. O nac oedd. Roedd hi'n odidog yn y Bannau ac fe wnaethon ni blannu 1,500 o eginblanhigion - dechrau prosiect adfer coed cae sylweddol."*

## Partneriaeth Natur Leol - adfer cynefinoedd

Gweithiodd aelodau o'r grŵp Domino, grŵp ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl, ar ddarn bach o dir ym Mhromenâd Aberhonddu i wella ei werth fel cynefin bywyd gwyllt. Gwnaed y gwaith yn bosibl gyda grant drwy gyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur y Bartneriaeth Natur Leol. Ychwanegwyd planhigion newydd fel cwyrwiail, byddon chwerw a charpiog y gors - a gafwyd gan Celtic Wildflowers - at y planhigion a oedd eisoes yn tyfu yno. Dewisodd y grŵp blanhigion â gwerth bywyd gwyllt, fel danadl, i'w cadw. Fe wnaethon nhw i gyd fwynhau'r profiad a byddant yn cynnal yr ardal yn ôl yr angen.



# 4. Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Yn 2012, cyflwynodd yr Awdurdod broses sgrinio Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob adroddiad sy'n gofyn am benderfyniad gan aelod yn yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, y Pwyllgor Archwilio a Chraffu a, lle y bo'n briodol, pwyllgorau Cynllunio a Hawliau Tramwy.

Byddai adroddiad pob swyddog yn cael ei ategu gan ffurflen sgrinio ar gyfer materion Cydraddoldeb. Lle mae'r ffurflen sgrinio yn pennu risg sylweddol i nodwedd warchodedig, mae angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb llawn. Mae pob un o'r asesiadau sgrinio hyn wedi'u cynnwys ym mhapurau Agenda'r Pwyllgor.

Mae cynllun i ddiweddaru'r ddogfen Asesiad Effaith Integredig i sicrhau bod y gofynion cyfreithiol diweddaraf a'r arfer gorau diweddaraf yn cael eu hymgorffori.  Mae copi o'r ffurflen newydd ar gael ar gais.

# 5. Hyfforddiant

I gefnogi cydraddoldeb strategol, mae aelodau a swyddogion yn derbyn hyfforddiant cydraddoldeb fel rhan o'r broses sefydlu gan yr Adran Adnoddau Dynol.

Bydd staff ac aelodau'n derbyn hyfforddiant ar sut i gwblhau'r asesiadau diweddaraf yng ngaeaf 2025/2026, ynghyd â hyfforddiant gloywi ar y ddeddfwriaeth ddiweddaraf yng Nghymru.

Yn ogystal â'r hyfforddiant a ddarperir i gefnogi'r gwaith o gyflwyno a mabwysiadu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, mae'r Awdurdod yn darparu hyfforddiant i weithwyr ar gynhwysiant cymdeithasol, ymwybyddiaeth byddardod, ymwybyddiaeth dementia, ymwybyddiaeth iechyd meddwl ac ymwybyddiaeth anabledd.

# 6. Trefniadau caffael

O dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â'r Ddyletswydd Caffael Cymdeithasol Gyfrifol. Mae'r Ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal drwy gyflawni caffael cyhoeddus mewn ffordd gymdeithasol gyfrifol.

Mae cyfleoedd i gamau gweithredu yn y maes hwn alinio â gweithgareddau ar weithredu dyletswyddau cydraddoldeb penodol Cymru ar gaffael. Mae'r Awdurdod yn y broses o ddatblygu ei Bolisi Caffael Cymdeithasol Gyfrifol a fydd yn helpu i gryfhau gwaith cydraddoldeb a chaffael ehangach yr Awdurdod.

# Atodiadau

## Atodiad 1: Gwybodaeth am gyflogaeth - ein Haelodau

Cwblhaodd 15 allan o 18 (83%) o'n haelodau y ffurflenni Monitro Cydraddoldeb ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/2025.

### 1.1. Ystadegau rhywedd aelodau

Mae'r tabl hwn yn dangos yr Aelodau wedi'u rhannu yn ôl rhywedd.

| Rhywedd | % |
|---|---|
| Gwrywaidd | 93.3% |
| Benywaidd | 6.7% |

### 1.2. Ystadegau oedran aelodau

Mae'r tabl hwn yn dangos yr Aelodau wedi'u rhannu yn ôl oedran ym mlwyddyn ariannol 2024/2025.

| Oedran | % |
|---|---|
| 16-21 | 0% |
| 22-30 | 6.7% |
| 31-40 | 20% |
| 41-50 | 0% |
| 51-60 | 40% |
| 60 + | 33.3% |

## 1.3. Ystadegau anabledd aelodau

Mae'r tabl hwn yn dangos aelodau sydd ag anabledd ym mlwyddyn ariannol 2024/2025.

| Datganiad anabledd | % |
|---|---|
| Oes | 36% |
| Nac oes | 96.4% |

## 1.4. Ystadegau cyfeiriadedd rhywiol aelodau

| Cfeiriadedd rhywiol | % |
|---|---|
| Deurywiol | 0% |
| Hoyw/Lesbiaidd | 20% |
| Heterorywiol | 80% |
| Trawsryweddol | 0% |
| Ddim eisiau datgelu | 0% |

## 1.5. Ystadegau statws priodasol aelodau

| Statws priodasol | % |
|---|---|
| Partneriaeth Sifil | 13.35% |
| Cyd-fyw | 20% |
| Priod | 53.3% |
| Arall | 13.35% |

## 1.6. Treftadaeth ethnig aelodau

Mae pob un o'n 15 Aelod a gwblhaodd y ffurflen Monitro Cydraddoldeb yn dod o gefndir Gwyn – Prydeinig.

## 1.7. Aelodau sy'n adrodd ailbennu rhywedd

Nid oes unrhyw un o'n Haelodau wedi ailbennu eu rhywedd neu wrthi'n gwneud hynny.

## 1.8. Ystadegau crefydd aelodau

| Crefydd | % |
|---|---|
| Mwslim | 0% |
| Bwdhydd | 0% |
| Hindŵ | 0% |
| Sikh | 0% |
| Iddew | 0% |
| Cristion | 60% |
| Arall | 6.7% |
| Ddim eisiau datgelu | 6.7% |
| Dim (Anffyddiwr) | 26.6% |

# Atodiad 2: Gwybodaeth am gyflogaeth - ein staff

Er cysondeb ac i gynhyrchu ffigurau cyfredol, mae'r Awdurdod wedi darparu gwybodaeth ystadegol hyd at a chan gynnwys 1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025, 114 o bobl ar gyfartaledd a 100.6 CALI ar gyfartaledd. Cwblhaodd 82 o gyflogeion y Ffurflen Monitro Cydraddoldeb.

## 2.1. Ystadegau rhywedd staff

Mae'r tabl hwn yn dangos staff wedi'u rhannu yn ôl rhywedd.

| Rhywedd | % |
|---|---|
| Gwrywaidd | 35.4% |
| Benywaidd | 64.6% |

## 2.2. Ystadegau oedran staff

Mae'r tabl hwn yn dangos staff wedi'u rhannu yn ôl oedran.

| Oedran | % |
|---|---|
| 16-21 | 1.2% |
| 22-30 | 14.6% |
| 31-40 | 24.4% |
| 41-50 | 31.8% |
| 51-60 | 25.6% |
| 60 + | 2.4% |

## 2.3. Ystadegau anabledd staff

Mae'r tabl hwn yn dangos staff sydd ag anabledd

| Datganiad anabledd | % |
|---|---|
| Oes | 3.6% |
| Nac oes | 96.4% |

## 2.4. Ystadegau cyfeiriadedd rhywiol aelodau

| Cfeiriadedd rhywiol | % |
|---|---|
| Deurywioll | 4.9% |
| Hoyw/Lesbiaidd | 1.2% |
| Heterorywiol | 81.7% |
| Trawsryweddol | 0% |
| Ddim eisiau datgelu | 12.2% |

## 2.5. Ystadegau statws priodasol staff

| Statws priodasol | % |
|---|---|
| Partneriaeth Sifil | 1.2% |
| Cyd-fyw | 30.5% |
| Priod | 39% |
| Arall | 29.3% |

## 2.6. Ystadegau treftadaeth ethnig staff

| Ystadegau treftadaeth | % |
|---|---|
| Cefndir gwyn | 97.6% |
| Gwyn Prydeinig | 78 |
| Unrhyw gefndir Gwyn arall | 2 |
| Unrhyw gefndir Asiaidd arall | 1.2% |
| Du neu Ddu Prydeinig – Cefndir Affricanaidd | 1.2% |

## 2.7. Staff sy'n adrodd ailbennu rhywedd

Nid oes unrhyw un o'n staff wedi ailbennu eu rhywedd neu wrthi'n gwneud hynny.

## 2.8. Ystadegau crefydd staff

| Crefydd | % |
|---|---|
| Mwslim | 0% |
| Bwdhydd | 0% |
| Hindŵ | 0% |
| Sikh | 0% |
| Iddew | 0% |
| Cristion | 39% |
| Arall | 0% |
| Ddim eisiau datgelu | 14.6% |
| Dim (Anffyddiwr) | 46.4% |

## 2.9. Cyflog

Mae dau gynllun cyflog yn gweithredu yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Gweithredodd yr Awdurdod Statws Sengl ym 1997. Mae graddau a lefelau cyflog yr Awdurdod nad ydynt ar gyfer Prif Swyddogion yn cael eu pennu gan ddefnyddio cynllun Gwerthuso Swyddi'r Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC). Gwerthuswyd cyflogau Prif Swyddogion a Chyfarwyddwyr gan ddefnyddio'r Cynllun Hay.

## 2.10. Monitro rhywedd staff yn ôl band cyflog

| Band Cyflog | Gwrywod | | Benywod | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **CALI** | **Nifer** | **CALI** |
| Graad 2 | 0 | 0 | 4 | 2 |
| Gradd 3 | 6 | 4.1 | 7 | 5.3 |
| Gradd 4 | 8 | 6.8 | 4 | 3.2 |
| Gradd 5 | 3 | 3 | 8 | 7 |
| Gradd 6 | 4 | 4.5 | 11 | 9 |
| Gradd 7 | 9 | 8.6 | 9 | 7.5 |
| Gradd 8 | 2 | 2 | 2 | 1.6 |
| Gradd 9 | 6 | 6 | 3 | 3 |
| Gradd 10 | 4 | 4 | 8 | 6.8 |
| Gradd 11 | 2 | 2 | 4 | 4 |
| Gradd 12 | 0 | 0 | 2 | 2 |
| Gradd 13 | 2 | 1.6 | 3 | 2.6 |
| PS | 1 | 1 | 0 | 0 |
| Cyfarwyddwr | 1 | 1 | 1 | 1 |
| PSG | 0 | 0 | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **48** | **44.6 CALI** | **66** | **56 CALI** |

### 2.11. Staff sy'n cymryd Absenoldeb Mamolaeth

Roedd un aelod o staff ar absenoldeb mamolaeth yn 2024-2025.

### 2.12. Cyflogeion sydd wedi gwneud cais i newid swydd o fewn yr Awdurdod

Llwyddiannus - 3, Ddim yn llwyddiannus - 4

### 2.13. Cyflogeion sydd wedi gwneud cais am hyfforddiant

Llwyddiannus - 24

### 2.14. Cyflogeion sy'n ymwneud â gweithdrefnau cwyno - 0

### 2.15. Cyflogeion sy'n destun gweithdrefnau disgyblu - 1

### 2.16. Cyflogeion sydd wedi gadael cyflogaeth yr Awdurdod - 9

## Atodiad 3: Ein hymgeiswyr

### 3.1. Pobl sydd wedi gwneud cais am swyddi gyda'r Awdurdod dros y flwyddyn ddiwethaf - 128